Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| Teitl y swydd: | Staff Haf 2025 / Tymhorol | Lleoliad: | Gwersyll yr Urdd, Llangrannog |
| Adran: | Gweithgareddau | Cyflog: | G1: £21,840 **NEU**<br>G2: £22,459 - £24,763<br>(yn ddibynnol ar brofiad a chymwysterau) |
| Oriau Gwaith: | Llawn amser<br>(35 awr yr wythnos) | Cytundeb: | Staff Haf: Ebrill 14eg hyd at Awst 31ain 2025<br>Tymhorol: Ebrill 18fed hyd at Tachwedd 30ain 2025 |
| Yn adrodd i: | Rheolwr Gofal Cwsmer | Rheolaeth Llinell: | Neb |

## Prif bwrpas y swydd:

Cyfle ardderchog i fyfyriwr neu berson ifanc ennill profiad a chyflog yn y byd addysg awyr agored a hamdden. Fydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus cynorthwyo'r Gwersyll a'r Adran Weithgareddau i ddarparu gwasanaeth cyflawn a phroffesiynol fel y gall y cwsmeriaid fwynhau amrediad eang o weithgareddau cyffrous.

---

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

Mynychu wythnosau hyfforddiant sydd wedi trefnu dros Wyliau Pasg (18 Ebrill i 25 Ebrill 2025). Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus gymryd rhan yn yr holl hyfforddiant a gynigir. Anelir at dystysgrifau cenedlaethol a hyfforddiant canlynol:

- Cwrs Saethyddiaeth
- Cwrs arweinydd Beiciau Modur
- Cwrs Cymorth Cyntaf
- Cwrs Achub Bywyd Pwll Nofio
- Hyfforddiant mewnol ar holl weithgareddau amrywiol y gwersyll gan gynnwys y wal ddringo, cwrs rhaffau uchel, saethyddiaeth, sgïo, adeiladu tîm, datrys problemau cyfeiriannu, trampolîn, merlota, ceirt modur, gwibgartio a gweithgareddau nos. Gall yr hyfforddiant yma arwain i gymwysterau allanol ychwanegol.

Disgwylir i'r Staff Haf ymgymryd â'r rota staff y Gwersyll sy'n golygu bod ar ddyletswydd ar benwythnosau ac oriau hwyr ac anghymdeithasol. Fe roddir amser ychwanegol i ffwrdd am hyn.

Disgwylir i Staff Haf cynorthwyo i rediad Gwersylloedd Preswyl y Gwersyll yn ystod y cyfnod yma gan gynnwys Gwersylloedd Haf Llangrannog ar ddiwedd Mis Gorffennaf.

Mae llawer o ddyletswyddau cyffredinol y Gwersyll yn disgyn i ran aelodau'r Adran Weithgareddau. Bydd y rhain yn cynnwys glanhau a cynnal a chadw gwahanol ardaloedd ac offer o fewn y Gwersyll, llenwi peiriannau bwyd a diod, a rhoi cymorth i adrannau eraill y Gwersyll yn ôl y galw.

Oherwydd natur y Gwersyll, fe fydd rhaid i'r ymgeiswyr ymateb i alwadau a gofynion amrywiol o dro i dro.

Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn o leiaf 18 mlwydd oed neu'n hŷn, yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda diddordeb mewn plant a phobl ifanc, ac yn meddu ar bersonoliaeth gyfeillgar a brwdfrydig.

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| Hanfodol: | Dymunol: |
|---|---|
| 1. Y gallu i gyfathrebu, dysgu a hyfforddi yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg).<br>2. Unigolion egnïol, brwdfrydig a threfnus.<br>3. Parodrwydd i weithio yn unigol ac fel rhan o dîm.<br>4. Hyblygrwydd a pharodrwydd i weithio oriau anghymdeithasol.<br>5. Sgiliau cyflwyno da.<br>6. Y gallu a'r hyder i arwain a chyflwyno gweithgareddau (sy'n cynnwys twmpath) grwpiau o 5 i 100.<br>7. Y gallu a'r hyder i ddelio gydag ymddygiad heriol pan fo angen. | 1. Profiad ar allu i arwain, hyfforddi, cyfathrebu ac ysgogi plant, phobl ifanc ac oedolion.<br>2. Profiad ar allu i weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion arbennig.<br>3. Profiad, diddordeb a chymwysterau mewn gweithgareddau chwaraeon, hamdden ar awyr agored.<br>4. Trwydded gyrru car.<br>5. Ymwybyddiaeth ac agwedd cyfrifol tuag at Iechyd a Diogelwch.<br>6. Gwybodus am Wersyll Llangrannog ar Urdd. |

Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Chwefror 2025 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

Gwiriadau Perthnasol:

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).